Cyfarfod Grŵp Ardal De Cymru Engage

Dydd Gwener, 3 Rhagfyr 2021, 10:00 am - 12:00 pm

Cysylltu a Rhannu gydag ymarferwyr creadigol

Cyfle i gysylltu a rhannu gydag ymarferwyr creadigol, cydweithwyr dysgu a chyfranogi yn ne Cymru a dysgu am brosiectau a mentrau yn y rhanbarth.

Ymhlith y cyfranwyr fydd Emily Laurens, Oriel Myrddin yn siarad am Bileri Cymdeithas - prosiect sy'n ymateb i'r drafodaeth genedlaethol (a rhyngwladol) am gerfluniau, cofebion a hanes gwladychol sy'n cynnig cyfle i drafod hil, cydraddoldeb, amrywiaeth, hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg, a'r profiad o Gymru fel gwlad wladychu a gwladychedig.

Yn ymuno â ni hefyd fydd Sean Kenny, y Swyddog Dysgu Digidol ac Ymgysylltu newydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol i glywed am Brosiect Celf Gyfoes newydd.

I bwy mae'r cyfarfod hwn yn addas?

Ar agor i ymarferwyr creadigol ac unrhyw un sy'n gweithio ym maes addysg a chyfranogi yn y celfyddydau gweledol. Targedir y digwyddiad at gydweithwyr yn ne Cymru, ond mae croeso i gydweithwyr o fannau eraill yng Nghymru neu weddill y DU ddod.

Cysylltwch gydag unrhyw ymholiadau am y cyfarfod ag:

Angela Rogers, Cydlynydd Engage Cymru, cymru@engage.org neu Louise Tolcher Goldwyn, y Cynrychiolydd Ardal, education@LGAC.org.uk

Dolen Archebu:

https://www.eventbrite.co.uk/e/connect-and-share-with-creative-practitioners-tickets-205091242427